Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Suzy Davies AC
Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu

26 Mawrth 2019

Annwyl Suzy

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Mae'r **Pwyllgor Cyllid** yn ymgymryd â'r gwaith o graffu ar **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** ar ôl y **broses ddeddfu**. Cyflwynwyd y Ddeddf hon ym mis Gorffennaf 2012 a daeth yn gyfraith yng Nghymru ar 29 Ebrill 2013. Nod y ddeddfwriaeth oedd cryfhau a gwella atebolrwydd a threfniadau llywodraethu'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gan ddiogelu annibyniaeth a gwrthrychedd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Y Pwyllgor Cyllid yw'r pwyllgor yn y Cynulliad sy'n gyfrifol am oruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi nodi materion yn ymwneud â'r trefniadau codi ffioedd a'r Ddeddf yn ystod ei waith craffu blynyddol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn ei ymgynghoriad ym mis Mehefin 2017 ynghylch ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwahodd y Pwyllgor i ystyried:

- **cynigion ar gyfer bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**; a
- **Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft**

Wrth graffu ar y Ddeddf ar ôl y broses ddeddfu, bydd y Pwyllgor Cyllid yn canolbwyntio ar ddau faes:

1. Archwilio materion a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; gan gynnwys:
   - Codi ffioedd
   - Trefniadau cworwm bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Trefniadau adrodd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Materion yn ymwneud â gosod cyfrifon ac adrodd arnynt
2. Ystyried i ba raddau y byddai'n fuddiol adolygu agweddau eraill ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r cylch gorchwyl uchod ac, fel corff a archwilir yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn eich barn a'ch profiadau o'r trefniadau codi ffioedd.

Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall pa effaith y mae'r Ddeddf wedi'i chael ar y Cynulliad ac mae'n nodi na wnaeth y Comisiwn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ynghylch y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) pan fu'n destun gwaith craffu yn 2012. Felly, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb yn eich barn am y modd y caiff y Ddeddf ei rhoi ar waith ac am gostau gweinyddu'r dyletswyddau a roddir ar Gomisiwn y Cynulliad, fel penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru ac aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, caffael Archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru ac a yw'r Cynulliad wedi gweld unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y system archwilio ers cyflwyno'r Ddeddf.

Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu anfon eich ymateb erbyn 3 Mai 2019. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â: Georgina Owen, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6387, **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd